# HYSBYSIAD ETHOLIAD
## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
## ETHOL CYNGHORYDD/CYNGHORWYR

DROS

| WARDIAU | NIFER Y CYNGHORWYR | WARDIAU | NIFER Y CYNGHORWYR |
|---|---|---|---|
| **ABERSYCHAN** | **(3)** | **BLAENAFON** | **(3)** |
| **COED EFA** | **(1)** | **CROESYCEILIOG** | **(2)** |
| **FAIRWATER** | **(2)** | **DÔL WERDD** | **(1)** |
| **LLANFRECHFA A PHONTHIR** | **(1)** | **LLANTARNAM** | **(3)** |
| **LLANYRAFON** | **(1)** | **Y DAFARN NEWYDD** | **(3)** |
| **PAN-TEG** | **(3)** | **PONTNEWYDD** | **(3)** |
| **PONTNEWYNYDD A SNATCHWOOD** | **(2)** | **PONT-Y-PŴL FAWR** | **(3)** |
| **SAIN DERFEL** | **(2)** | **TREFDDYN A PHEN-Y-GARN** | **(2)** |
| **DWY LOC** | **(3)** | **CWMBRÂN UCHAF** | **(2)** |

1. Rhaid cyflwyno papurau enwebu â llaw i'r Swyddog Canlyniadau, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen NP4 6YB ar unrhyw ddiwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn ar:
   ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau 9.30am – 12 canol dydd / 1.00pm - 4.30pm, dydd Mercher 30 Mawrth 2022 9.30am - 12canol dydd / 1.00pm tan 6.00pm, dydd Gwener 9.30am – 12 canol dydd / 1.00pm - 4.00pm ond heb fod yn hwyrach na **4pm ar ddydd Mawrth 5 Ebrill 2022,** neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno electronig isod. .

2. Gellir cael papurau enwebu o swyddfeydd y Swyddog Canlyniadau, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB yn ystod yr amseroedd a nodir uchod neu maent ar gael ar: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-mewn-etholiadau-lleol-yng-nghymru lle, ar gais unrhyw etholwr am ward, y bydd papur enwebu yn cael ei baratoi i'w lofnodi.

3. Os bydd gornest yn yr etholiad, cynhelir pleidlais **ddydd Iau 5 Mai 2022** rhwng **7am – 10pm**

4. Rhaid i geisiadau i gyhoeddi, diwygio neu ddiddymu pleidleisiau drwy'r post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB erbyn 5 p.m. **ddydd Mawrth 19 Ebrill 2022**.

5. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB erbyn 5 p.m. **ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022**.

6. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn ar sail analluedd corfforol, os yw'r analluedd hwnnw wedi digwydd ar ôl 5 p.m. **ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022** gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP4 6YB erbyn 5 pm **ddydd Iau 5 Mai 2022**.

7. Bydd y bleidlais uchod yn cael ei gyfuno â'r bleidlais ar gyfer ethol Cynghorydd/Cynghorwyr Cymunedol.

8. Mae nodiadau cyfarwyddyd atodol ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol ar gael ar https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-mewn-etholiadau-lleol-yng-nghymru

**Datganiad cyflwyno electronig**

Rhaid anfon papurau enwebu a gyflwynir yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

A) Drwy e-bost

- Rhaid anfon enwebiadau i: Candidates@torfaen.gov.uk yn nodi Cyflwyno Enwebiad yn y maes pwnc
- Os ydych angen gwiriad anffurfiol, e-bostiwch: Candidates@torfaen.gov.uk gan nodi Gwirio Enwebiad yn Anffurfiol yn eich maes pwnc.
- Sicrhewch eich bod yn gofyn am dderbynneb a chadarnhau'r dderbynneb drwy ffonio: 01495 766074

Nodwch os gwelwch yn dda:

Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu yn y dull cywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol.

Nid yw derbynneb electronig yn nodi ei fod wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon nodyn i hysbysu ymgeiswyr o'u penderfyniad ar a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.

Os ydych angen unrhyw gymorth gyda chyflwyno enwebiadau yn electronig, cysylltwch â Caroline Genever-Jones.

**STEPHEN VICKERS**
**SWYDDOG CANLYNIADAU**

Dyddiad: 18 Mawrth 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB.